



WALES AUDIT OFFICE  
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Auditor General for Wales

# Cynllunio Arbedion – Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 673A2016



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Janet Smith, Catryn Holtzinger a Jeremy Evans, o dan gyfarwyddyd Alan Morris

# Cynnwys

Er nad oes gan y Cyngor rhai cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod mae ganddo fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n ategu cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.

## Adroddiad cryno

Crynodeb	4
Cynigion ar gyfer gwella	6

## Adroddiad manwl

Er nad oes gan y Cyngor gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod mae ganddo fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n ategu cydnerthedd ariannol yn y dyfodol	7
---	---

Cyd-destun	7
------------	---

Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16	9
----------------------------------	---

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 87% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni	9
--	---

Trefniadau cynllunio ariannol	10
-------------------------------	----

Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol ond nid oes cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod	10
---	----

Cynllun Arbedion 2016-17	
--------------------------	--

Ar y cyfan mae gan y Cyngor gynlluniau arbedion manwl ar gyfer 2016-17 ac mae'n rhagweld y bydd 93% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 yn cael ei gyflawni	12
--	----

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

- 1 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yn barhaus. Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol mae gwaith cynllunio ariannol da, ynghyd â chynlluniau arbedion tra ystyriol, yn hanfodol er mwyn sicrhau cydnherthedd ariannol.
- 2 Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar ateb y cwestiwn canlynol: **A yw trefniadau cynllunio arbedion ariannol y cyngor yn cefnogi cydnherthedd ariannol?**
- 3 Mae gwaith cynllunio ariannol da:
  - yn helpu cynghorau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
  - yn helpu cynghorau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
  - yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
  - yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
  - yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
  - yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
  - yn ddisgyblaeth reoli allweddol.
- 4 Mae gwaith cynllunio ariannol ar gyfer y tymor canolig i'r hirdymor yn cynnwys deall y galw yn y dyfodol, asesu effaith newidiadau tebygol, adolygu'r bylchau rhwng anghenion ariannu ac incwm posibl a, lle y bo angen, ddatblygu strategaethau arbedion priodol.
- 5 Dylai blaenoriaethau strategol cyngor a'i iechyd ariannol fod yn sail ar gyfer penderfynu beth sy'n ymarferol. Gall strategaethau ariannol hirdymor a chynlluniau ariannol tymor canolig tra ystyriol a manwl sicrhau y caiff blaenoriaethau strategol eu cyflawni drwy alluogi awdurdod i wneud dewisiadau ariannol priodol. I'r gwrthwyneb, mae gwaith cynllunio cyllidebol blynyddol byrdymor yn annog awdurdodau i fabwysiadu dull gweithredu cynyddrannol a lywir gan brosesau sy'n rhy anhyblyg mewn cyfnod o newid allanol cyflym.
- 6 Caiff cynghorau tua 80% o'u hincwm net oddi wrth Lywodraeth Cymru, dim ond 4-5 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y daw'r union ffigur yn hysbys. Er bod hyn yn effeithio ar waith cynllunio ariannol, gall cynghorau ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth i ragweld amgylchiadau sy'n newid, pennu blaenoriaethau, gwneud dewisiadau a rheoli'r modd y darperir gwasanaethau. Gallant gyfrifo faint o arian y byddai ei angen arnynt er mwyn darparu gwasanaethau (yn ôl prisiau cyfredol neu brisiau yn y dyfodol) ac ystyried senarios amgen o ran incwm a gwariant er mwyn nodi bylchau a pharatoi ar gyfer y dyfodol drwy ymchwilio i ddulliau gweithredu gwahanol.

- 7 Yn ystod 2015-16 cyflawnodd Swyddfa Archwilio Cymru waith ym mhob cyngor er mwyn asesu digonolrwydd ei drefniadau cynllunio ariannol, rheolaeth ariannol a llywodraethu ariannol. Cyflwynwyd adroddiadau lleol a chyhoeddwyd adroddiad cryno cenedlaethol ym mis Awst 2016. Daeth yr adroddiad cryno cenedlaethol i'r casgliad bod **awdurdodau lleol yn gwella eu trefniadau cynllunio strategol ond yn cael anhawster yn datblygu a darparu'r arbedion a'r newidiadau i wasanaethau ar y cyflymder sy'n ofynnol i sicrhau cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**
- 8 Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2016, rydym wedi canolbwyntio ar waith i nodi arbedion, cynllunio ar eu cyfer a'u cyflawni. Ystyriwyd i ba raddau y cyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (y Cyngor) ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2015-16, y gwaith y mae wedi'i wneud i sicrhau cydnerthedd ariannol yn ystod cyfnod cynllunio ariannol 2016-17 a chadernid ei gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17.
- 9 Ystyriwyd tri chynnig ar gyfer gwneud arbedion yn 2016-17 ac ystyriwyd y tybiaethau sy'n sail iddynt, ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig.
- 10 Yn dilyn y gwaith a wnaed yn 2015-16 aethom ati i nodi'r hyn a wnaeth y Cyngor o ganlyniad i'r hyn a ddysgodd a sut y mae wedi ymateb i'n cynigion ar gyfer gwella mewn perthynas â chynllunio ariannol os gwnaethom unrhyw rai.
- 11 Yn yr adroddiad hwn rydym wedi disgrifio rhai o nodweddion allweddol cynllunio ariannol effeithiol – **Nodweddion cynllunio ariannol da**. Mae archwilwyr wedi defnyddio'r rhain a ffactorau eraill i lunio barn gytbwys ar effeithiolrwydd trefniadau cynllunio ariannol cyngor a gwerthuso gallu cyngor i gyflawni ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig a'i arbedion arfaethedig.
- 12 Yn ein hadolygiad ar gyfer 2015-16 daethom i'r casgliad bod **trefniadau ariannol y Cyngor yn effeithiol ar y cyfan, ond mae angen datblygu cynlluniau arbedion manylach ar gyfer y dyfodol.**
- 13 Yn yr adolygiad hwn daethom i'r casgliad **er nad oes gan y Cyngor rai cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod, mae ganddo fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n ategu cydnerthedd ariannol yn y dyfodol.**

- 14 **Prin yw'r newid o 2015-16** – mae'r Cyngor wedi cysoni ei brosesau cynllunio corfforaethol ac ariannol. Er bod diffyg manylion mewn rhai cynlluniau arbedion, cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod a dull strategol o gynhyrchu incwm yn gwanhau trefniadau, mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno i ddatblygu ei ddull o lunio cynlluniau arbedion ar gyfer blynyddoedd i ddod a chynhyrchu incwm strategol.

## Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella ac, os byddwn yn gwneud hynny, gall yr Archwilydd Cyffredinol gymryd nifer o gamau. Yn yr achos hwn mae cynnig ar gyfer gwella wedi'i wneud a byddem yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth yn ei gylch.

#### Cynigion ar gyfer gwella

- C1 Atgyfnerthu'r trefniadau cynllunio ariannol drwy wneud y canlynol:
- datblygu cynlluniau arbedion dangosol i gwmpasu cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig;
  - datblygu dull strategol o gynhyrchu incwm; a
  - sicrhau bod pob cynllun arbed yn y gyllideb flynyddol yn cael ei ddatblygu'n llawn pan gytunir ar y gyllideb

# Adroddiad manwl

## Er nad oes gan y Cyngor gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod mae ganddo fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n ategu cydnerthedd ariannol yn y dyfodol

### Cyd-destun

- 15 Ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ei gwariant ar wasanaethau cyhoeddus fel rhan o'i chynllun i leihau'r diffyg. Yn sgil y toriadau i'w chyllideb, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud dewisiadau anodd o ran sut i ddosbarthu'r toriadau ariannol hynny rhwng y gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. O ganlyniad, mae'r cyllid craidd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i gynghorau lleol wedi gostwng bob blwyddyn. Hyd yma, mae'r rhan fwyaf o gynghorau lleol wedi llwyddo i leihau eu gwariant a mantoli eu cyllidebau, ond mae'r gostyngiadau blynyddol yn debygol o barhau ar yr un lefel. Dengys ein dadansoddiad, rhwng 2013-14 a 2016-17, fod gostyngiad o £483 miliwn (10.9%) wedi bod yn y cyllid craidd hwn mewn termau real<sup>1</sup>.
- 16 Mae'n bosibl y bydd effaith y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn fygythiad i gynghorau lleol a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru. Yn syth ar ôl y penderfyniad cafwyd ymateb yn y marchnadoedd ariannol a arweiniodd at anwadalrwydd, er enghraifft, ym mhrisiau cyfranddaliadau, cyfraddau cyfnewid arian cyfred, prisiau olew ac arenillion bondiau, ac mae'r DU yn parhau i wynebu cryn dipyn o ansicrwydd yn ogystal â chwestiynau pwysig am gydb berthnasau economaidd a masnachol ag Ewrop yn y dyfodol. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) wedi mynegi pryderon ynghylch goblygiadau canlyniad refferendwm yr Undeb Ewropeaidd, gan ei alw'n newid enfawr ym mholisi cyhoeddus y DU<sup>2</sup> yn enwedig am mai cynghorau lleol yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru ac am eu bod darparu llawer o wasanaethau cyhoeddus pwysig.


<sup>1</sup> Mae cymharu cyllid craidd (Cyllid Allanol Cyfun) yn ystod y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn gymhleth am ddau brif reswm. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori grantiau a roddid ar wahân yn flaenorol mewn cyllid craidd. Er bod y broses hon o 'ddadneuilltuo' grantiau yn arwain at gynnydd mewn cyllid craidd, nid yw o reidrwydd yn gynnydd net mewn cyllid. Mae gwerth net grantiau a ymgorfforwyd mewn cyllid craidd ers 2013-14 tua £76 miliwn mewn termau real (wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant).

<sup>2</sup> Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, **Pryder am effaith y refferendwm ar wasanaethau**, 24 Mehefin 2016

- 17 Er bod yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng yn gyffredinol, bu disgwyl i gynghorau ddiogelu ysgolion a gofal cymdeithasol rhag y rhan fwyaf o'r pwysau. Mae gofal cymdeithasol yn arbennig wedi'i chael hi'n anodd hyd yn oed gyda'r diogelwch hwn am fod newidiadau demograffig wedi cynyddu'r galw am wasanaethau, er enghraifft.
- Fodd bynnag, golyga hyn mai gwasanaethau eraill sydd wedi wynebu'r rhan fwyaf o'r toriadau ac mae eu cyllidebau wedi gostwng 30% neu fwy mewn termau real ers 2013-14.
- 18 Cafodd y Cyngor gymorth ariannol gwerth £150.4 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17. Mae hyn yn cyfateb i £1,167 fesul unigolyn yn y sir, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru ond yn ostyngiad o 11.5%<sup>3</sup> y pen mewn termau real ers 2013-14. Mae materion allweddol eraill sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol gyffredinol unrhyw gyngor, er enghraifft sylfaen gyffredinol y Dreth Gyngor, y gallu i gynhyrchu incwm yn lleol a'r lefelau amddifadedd.

### Arddangosyn 2: cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn 2016-17

Dengys y graff isod faint o arian y mae pob cyngor yn ei gael fesul pen o'r boblogaeth gan Lywodraeth Cymru.



Ffynhonnell: StatsCymru ([www.statscymru.llyw.cymru](http://www.statscymru.llyw.cymru))

<sup>3</sup> Mae'r ffigur ar gyfer y gostyngiad canrannol y pen yn amrywio o'r gostyngiad mewn cyllid craidd yn 2013-14 oherwydd yr amrywio yn y boblogaeth a welwyd yn ystod yr un cyfnod.



## Arbedion a gyflawnwyd yn 2015-16

Mae'r Cyngor wedi nodi ei fod wedi cyflawni 87% o'i arbedion arfaethedig ar gyfer 2015-16 yn ystod y flwyddyn a gall ddangos bod arbedion unigol wedi cael eu cyflawni

### Nodweddion cynllunio ariannol da

19 Dylai fod gan gynghorau sydd â hanes da o gyflawni'r rhan fwyaf o arbedion arfaethedig yn ystod y flwyddyn gynlluniau arbedion a chynlluniau cyflawni datblygedig ar waith a ategir gan brosesau monitro cadarn. Nid oes rhaid i'r cynghorau hyn gau'r bwch yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn, drwy nodi arbedion amgen, defnyddio cyllid untro heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cronfeydd cyffredinol wrth gefn, cronfeydd wrth gefn nac incwm heb ei gynllunio damweiniol a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

### Yr hyn a nodwyd gennym

- 20 Roedd cyllideb arfaethedig y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cynnwys cynlluniau arbedion o £6.8 miliwn. Rhagorodd y Cyngor ar ei ofyniad arbedion cyffredinol ar gyfer 2015-16 £300,000. Fodd bynnag, dim ond 87% o'i gynlluniau arbedion gwreiddiol a gyflawnodd y Cyngor. Roedd y rhan fwyaf o'r cynlluniau arbedion nas cyflawnwyd yn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweledol ac nis cyflawnwyd am nad yw cynlluniau arbedion wedi'u datblygu'n llawn cyn eu cynnwys yn y gyllideb flynyddol. Gorgyflawni arbedion yn ymwneud ag ailnegodi'r contract gwaredu gwastraff yn gynnar
- 21 Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn dwyn unrhyw gynlluniau arbedion y gellir eu cyflawni ymlaen o hyd i'r flwyddyn ganlynol. Adolygodd y Cyngor ei gynlluniau arbedion ar ddiwedd 2015-16 a phennodd na allai rhai cynlluniau arbedion nas cyflawnwyd yn 2015-16 a rhai a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd blaenorol gael eu cyflawni. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chynlluniau arbedion yn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gweladwy, er enghraifft newidiadau i bolisi parcio. Y prif reswm dros beidio â chyflawni'r cynlluniau arbedion a pheidio â datblygu'r cynlluniau yw na chawsant eu datblygu'n ddigonol pan gytunwyd ar y gyllideb flynyddol.
- 22 Roedd strategaeth cyllideb arfaethedig y Cyngor yn cynnwys defnyddio £2.5 miliwn o'i gronfa gyffredinol wrth gefn i ariannu gwariant cylchol. Bu'r defnydd o gronfeydd wrth gefn yn un o nodweddion strategaeth gyllideb arfaethedig y Cyngor ers 2013-14. Mae'n rhan annatod o raglen Ad-drefnu Gwasanaethau'r Cyngor a bwriedir iddo leddfu effaith gwasanaethau sy'n cyflawni cynlluniau arbedion dros y tymor canolig. Mae'r gyllideb arfaethedig hefyd yn cynnwys defnydd arfaethedig o gronfa adfer wrth gefn Gwasanaethau Cymdeithasol.

- 23 Cyflawnodd y Cyngor warged bach ar ei gyllideb ar gyfer 2015-16 a oedd yn cynnwys y defnydd arfaethedig o'i gronfa gyffredinol wrth gefn o £2.5 miliwn. Llwyddodd pob gwasanaeth i fantoli'r gyllideb yn gyffredinol, ond cafwyd amrywiadau gwario o fewn a rhwng meysydd gwasanaeth.

## Trefniadau cynllunio ariannol

### Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ym maes cynllunio ariannol ond nid oes ganddo gynlluniau arbedion dangosol ar gyfer blynyddoedd i ddod

#### Nodweddion cynllunio ariannol da

- 24 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen allweddol o fframwaith cynllunio effeithiol ac integredig. Dylai gwaith cynllunio ariannol tymor canolig a gwaith cyllidebu blynyddol da adlewyrchu amcanion a blaenoriaethau strategol y cyngor ar gyfer y flwyddyn, ac yn y tymor hwy. Fel arfer mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o rhwng tair a phum mlynedd a dylent nodi sut y caiff adnoddau eu neilltuo i ddarparu gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau'r cyngor. Dylid ystyried yr effaith ar ddinasyddion a rhanddeiliaid eraill hefyd.
- 25 Mae Cynlluniau Ariannol Tymor Canolig da yn cynnwys ystyriaeth o'r risgiau ariannol allweddol ynghyd â sut i'w lliniaru. Mae'n rhaid i gynghorau lunio tybiaethau ynghylch chwyddiant, lefelau incwm, demograffeg, y galw am wasanaethau yn y dyfodol a chostau darparu gwasanaethau, ac mae angen seilio'r rhain ar ragfynegiadau rhesymol. Dylai'r cyngor hefyd ddefnyddio gwaith modelu ariannol i asesu'r effeithiau tebygol ar gynlluniau ariannol ac arbedion gofynnol ar gyfer amrywiaeth o wahanol senarios a risgiau. Dylai'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gael ei adolygu'n aml a'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu newidiadau o ran tybiaethau a risgiau.
- 26 Dylai cynghorau weithredu o fewn lefel o gronfeydd wrth gefn a balansau (gan gynnwys cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd a balans y gronfa gyffredinol), a gymeradwywyd gan yr Aelodau, ac sy'n briodol i'r risgiau strategol, gweithredol ac ariannol y maent yn eu hwynebu. Dylai cynghorau gynnwys manylion am y ffordd y caiff cronfeydd wrth gefn eu defnyddio dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- 27 Mae'n rhaid i'r cyngor ddangos ei fod yn deall ei ffynonellau incwm a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy a'i fod wedi adolygu ei ymagwedd tuag at ffioedd a thaliadau, am ei wasanaethau, er mwyn sicrhau gwerth am arian.

#### Yr hyn a nodwyd gennym

- 28 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor wedi cael ei ddylanwadu gan ganlyniadau gofynnol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac fe'i datblygwyd i ddangos cyfraniad y Cyngor at y nodau llesiant a nodwyd yn y Ddeddf hon.

Mae gan Gynllun Corfforaethol 2016-20 bedwar canlyniad llesiant a ategir gan ddau amcan llesiant yr un.

- 29 Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys camau gweithredu sy'n gyson â chanlyniadau llesiant a gyflawnir drwy amrywiaeth o ffynonellau cyllid. Fodd bynnag, gallai gostyngiadau pellach mewn cyllid effeithio ar y ffynonellau cyllid. Rhan allweddol o sicrhau bod y sefyllfa ariannol yn cael ei monitro yng nghydestun gweithgareddau cynllunio corfforaethol eraill yw sefydlu Bwrdd 'Insight', a wnaiff symleiddio trefniadau presennol a chysoni grwpiau presennol o fewn un Bwrdd.
- 30 Un o flaenoriaethau'r Bwrdd yw adolygu cynlluniau a strategaethau corfforaethol gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Drwy ragamcanu a deall sefyllfa ariannol y Cyngor, gellir nodi materion a chymryd camau adferol priodol mewn modd amserol.
- 31 Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ei ategu hefyd gan bolisiau adnoddau dynol priodol, megis polisiau adleoli, ymddeol a diswyddo hyblyg a strategaeth rheoli asedau.
- 32 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyfunol ar ei Gynllun Corfforaethol 2016-20 a Chyllideb 2016-17 a oedd yn cynnwys ymgynghori â dinasyddion, partneriaid, rhanddeiliaid a grwpiau gwarchoddedig. Cynhelir Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer cynigion arbed sy'n effeithio ar y cyhoedd.
- 33 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn elfen annatod o fframwaith cynllunio corfforaethol y Cyngor. Caiff y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chyllidebau eu pennu yn unol â blaenoriaethau corfforaethol o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Caiff y Cynllun ei ddwyn ymlaen bob blwyddyn yn yr haf ac mae'n cynnwys y Strategaeth Gyllidebol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.
- 34 Mae rhagamcanion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd. Mae rhagamcanion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn rhai cynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad o sensitifrwydd ac maent wedi'u modelu ar y senarios gorau, mwyaf tebygol a lleiaf optimistaidd. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod rhwng 2017-18 a 2019-20 yn nodi bwlch cyllidebol o £24 miliwn. Mae'r Cyngor wedi nodi rhai arbedion dangosol o £8 miliwn dros y cyfnod, gan adael bwlch cyllidebol o £16 miliwn.
- 35 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gan rai cynlluniau arbedion amseroedd arwain hir a dechreuodd edrych ar Tranche 3 o'i raglen Ad-drefnu Gwasanaethau ym mis Mawrth 2016, gyda'r nod o ddatblygu cynlluniau arbedion i'w cyflawni yn 2018-19. Efallai y bydd angen i'r Cyngor gael cymorth allanol er mwyn datblygu cynlluniau arbedion a gyflwynir fel sydd angen.
- 36 Ategir y Cynllun Ariannol Tymor Canolig gan dybiaethau rhesymol a phriodol ar gyfer newidynnau allweddol megis dyfarniadau cyflog, chwyddiant prisiau, lefelau ariannu a lefelau treth gyngor. Mae effaith newidiadau demograffig, newidiadau o ran galw a phwysau anosgoadwy hefyd yn cael ei hasesu.
- 37 Mae gan y Cyngor tua £10 miliwn fel balans gweithredol yn ei gronfa gyffredinol wrth gefn ynghyd â £65 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd er mwyn ariannu prosiectau refeniw a chyfalaf penodol, newidiadau i wasanaethau a risgiau ariannol posibl yn y dyfodol. Nid oes gan y Cyngor bolisi cronfeydd wrth gefn ond,

yn unol ag arfer da, mae'n adolygu ac yn cyflwyno adroddiadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn wrth bennu'r gyllideb flynyddol a chau'r datganiad cyfrifon blynyddol. Roedd strategaeth gyllidebol y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2013-14 a 2016-17 yn cynnwys y defnydd arfaethedig o'r gronfa gyffredinol wrth gefn i ategu'r gyllideb referniw ac mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio £1.5 miliwn o'i gronfa gyffredinol wrth gefn yn 2016-17. Mae'r Cyngor yn rhagweld y gall fod angen gwneud defnydd pellach o gronfeydd wrth gefn yn ystod cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ond nid yw wedi pennu eu gwerth. Cânt eu nodi wrth lunio'r strategaeth gyllideb flynyddol derfynol a diweddarau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

- 38 Nid oes gan y Cyngor ddull strategol o gynhyrchu incwm ond rhoddir canllawiau cyffredinol ar lefel y ffioedd a thaliadau wrth bennu'r gyllideb flynyddol. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen Ad-drefnu Gwasanaethau yn cynnwys ffrwd waith i adolygu cynhyrchu incwm. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn llywio datblygiad polisi codi tâl corfforaethol yn y dyfodol ac yn llywio dull y Cyngor o gynhyrchu incwm. Fodd bynnag, er gwaethaf diffyg dull corfforaethol o gynhyrchu incwm, mae rhai o gynlluniau arbedion 2016-17 yn deillio o gyfleoedd cynhyrchu incwm.
- 39 Ceir prosesau integredig sefydledig ar gyfer cyflwyno adroddiadau ariannol ac adroddiadau ar berfformiad bob chwarter yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am y defnydd o gronfeydd wrth gefn a chynlluniau arbedion. Er bod tybiaethau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn, nid oes unrhyw dystiolaeth bod perfformiad y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei fonitro yn ystod y flwyddyn.

## Cynllun Arbedion 2016-17

**Ar y cyfan mae gan y Cyngor gynlluniau arbedion manwl ar gyfer 2016-17 ac mae'n rhagweld y bydd 93% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 yn cael ei gyflawni**

### Nodweddion cynllunio ariannol da

- 40 Mae gan gynghorau sy'n cyflawni arbedion yn effeithiol gynlluniau arbedion tra ystyriol sy'n rhan o strategaethau arbedion tymor hwy a ategir gan gynlluniau arbedion a chyflawni unigol datblygedig sydd wedi'u costio'n llawn ac sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Dylai cynigion ar gyfer gwneud arbedion fod yn rhai penodol a dylid cynnal asesiad risg ohonynt er mwyn nodi pa mor debygol ydyw y cânt eu cyflawni.

### Yr hyn a nodwyd gennym

- 41 Yn ein hadolygiad yn 2015-16, nodwyd gennym fod cynlluniau arbedion y flwyddyn gyffredol yn rhai penodol ac wedi'u hategu gan brosesau datblygedig. Mae'r Cyngor

yn parhau i weithredu â ffocws wrth ddatblygu ei gynllun arbedion ar gyfer 2016-17; caiff pob cynllun arbedion ei ystyried yng nghyd-destun blaenoriaethau corfforaethol a gwasanaeth.

- 42 Mae'r Cyngor wedi nodi cynigion arbed i fodloni gofyniad arbedion 2016-17, sef £9.3 miliwn. Mae'r cynlluniau arbedion yn gymysgedd o gynlluniau arbedion gwasanaeth benodol a thargedau arbedion cyffredinol a ddyrennir i gyfarwyddiaethau o'r rhaglen Ad-drefnu Gwasanaethau.
- 43 Nid yw'r Cyngor yn asesu risg ei gynigion arbedion unigol yn ffurfiol wrth bennu'r gyllideb. Fodd bynnag, caiff cynigion arbedion eu dilysu a'u herio gan swyddogion ac aelodau o ran cyflawniad cyn pennu'r gyllideb flynyddol a dim ond y rhai y tybir y gellir eu cyflawni a gaiff eu cynnwys yn y gyllideb derfynol. Mae adroddiad y gyllideb yn cyfeirio at risgiau ariannol cyffredinol ac mae gan y Cyngor gronfa wrth gefn benodol wedi'i chlustnodi i hwyluso'r gwaith o gyflawni cynlluniau arbedion yn ei Raglen Ad-drefnu Gwasanaethau.
- 44 Mae'r cynllun arbedion yn un penodol. Ceir disgrifiad cryno yn erbyn cynlluniau arbedion gwasanaeth benodol a chaiff targedau arbedion yn ymwneud ag adolygiadau penodol yn y Rhaglen Ad-drefnu Gwasanaethau eu dyrannu i wasanaethau. Caiff cynlluniau arbedion Ad-drefnu Gwasanaethau eu monitro a'u hystyried yn fanwl gan Fwrdd Rhaglen Ad-drefnu Gwasanaethau/Gweithgor y Gyllideb.
- 45 Mae'r cynllun arbedion yn fesuradwy. Mae adroddiadau monitro cyllidebau chwarterol yn cynnwys atodiad monitro arbedion sy'n adrodd ar hynt arbedion. Mae'r Cyngor yn defnyddio statws Coch/Aubr/Gwyrdd ar gyfer monitro cynlluniau arbedion yn ei Raglen Ad-drefnu Gwasanaethau yn fewnol. Yn ein hadroddiad ar gydnerthedd ariannol ar gyfer 2015-16 gwnaethom nodi diffyg manylder wrth adrodd ar fonitro arbedion fel cynnig ar gyfer gwella. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym ei fod yn bwriadu mabwysiadu'r fformat adrodd a ddefnyddir ar gyfer cynlluniau arbedion yn ei Raglen Ad-drefnu Gwasanaethau ar gyfer holl adroddiadau monitro arbedion Pwyllgorau Craffu o fis Tachwedd 2016.
- 46 Mae'r Cyngor yn rhagweld y caiff 93% o'i gynlluniau arbedion ar gyfer 2016-17 ei gyflawni. Y prif resymau dros y diffyg cyflawni yw i rai cynigion ddechrau'n hwyrach na'r bwriad tra i eraill gael eu haddasu. Er enghraifft, cafodd y cynnig i ddiffodd rhai goleuadau stryd ei newid i osod goleuadau LED, na fydd yn dechrau tan fis Ionawr 2017. Fodd bynnag, caiff arbedion nas cyflawnwyd yn 2016-17 eu dwyn ymlaen i 2017-18 a bydd angen i wasanaethau liniaru'r rhain yn ystod y flwyddyn drwy ostwng gwariant neu nodi cynigion arbed amgen.
- 47 Esboniodd y Cyngor ei fod yn datblygu achosion busnes sy'n gymesur â'r arbedion gofynnol. Nid yw arbedion gwerth bach nac arbedion effeithlonrwydd cyffredinol fel arfer yn gofyn am achosion busnes ond cyflawnir arfarniadau opsiwn llawn ar gyfer pob cynnig arbed gwerth mwy a newid gwasanaeth mawr, yn enwedig y rheini o fewn Ad-drefnu Gwasanaethau. Caiff y math hwn o gynlluniau arbedion ei fonitro gan fyrddau prosiect.
- 48 Y tri chynnig i wneud arbedion yn 2016-17 a ystyriwyd gennym er mwyn profi'r tybiaethau sy'n sail iddynt ac a oes systemau digonol i sicrhau y gellir eu cyflawni yn unol â'r amserlen arfaethedig oedd:

- gofal cymdeithasol i oedolion – gwasanaethau preswyl £300,000
- targed ad-drefnu gwasanaethau – tranche 1 – gwasanaethau gweladwy £300,000
- adolygiad trafndiaeth – (arbedion trawsbynciol ar gyfer yr holl gyfarwyddiaethau) – £1.049 miliwn.

49 Nododd ein hadolygiad, er bod prosesau cymeradwyo priodol yn cefnogi'r cynlluniau arbedion, nad oedd dau o'r tri chynllun arbedion yn debygol o gael eu cyflawni'n llawn o fewn yr amserlenni arfaethedig. Mae'r Cyngor yn rhagweld na chaiff £300,000 o'r arbedion adolygiad trafndiaeth a milltiroedd car na £100,000 o'r arbedion gofal preswyl eu cyflawni yn ystod y flwyddyn. Disgwylir i wasanaethau nodi arbedion amgen er mwyn cyflawni'r diffyg rhagamcanol. Y prif reswm dros ragamcanu diffyg cyflawni yw na chafodd y cynlluniau arbedion hyn eu datblygu'n llawn pan gyfrifwyd y gyllideb flynyddol.



Wales Audit Office  
24 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: [info@audit.wales](mailto:info@audit.wales)

Website: [www.audit.wales](http://www.audit.wales)

Swyddfa Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)